Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Bodhyfryd**

**Range Road**
**Wrexham**
**LL13 7DA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011**

**gan**

**Gareth Wyn Roberts**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ddynodedig cyfrwng Cymraeg o dan ofal Awdurdod Lleol (ALl) Wrecsam ar gyfer plant a disgyblion 3-11 oed yw Ysgol Bodhyfryd. Fe'i lleolir ar gyrion dwyreiniol tref fwyaf Gogledd Cymru. Yn gyfredol, mae 279 disgybl o oed statudol a 63 plentyn rhan amser, oed meithrin ar lyfrau'r ysgol, sy'n cyfateb i 342 disgybl llawn amser. Mae'r niferoedd yn ddigon tebyg i'r niferoedd a oedd yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn ystod tymor y Gwanwyn 2005.

Daw'r disgyblion o bob rhan o'r dref ac maent o gefndiroedd cymdeithasol amrywiol. Yn gyfredol, mae gan 15.73% y cant o'r disgyblion hawl i bryd am ddim (PYD), sy'n ddigon tebyg i'r ganran ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r ganran hon ychydig yn is na'r ganran ar gyfer 2009 a 2010 ond eto ychydig yn uwch na chanran y disgyblion yr oedd ganddynt hawl i PYD adeg yr arolygiad diwethaf.

Yn ôl yr ysgol, mae 23% o'r disgyblion yn siarad y Gymraeg yn rhugl a'r gweddill yn gallu siarad Cymraeg heb fod, o anghenraid, yn rhugl ynddi. Daw 19% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg a'r gweddill o gartrefi lle siaredir Saesneg. Dysga'r holl ddisgyblion y Gymraeg i safon iaith gyntaf a'r Gymraeg yw prif gyfrwng addysgu'r ysgol.

Mae 98% o'r disgyblion o dras ethnig gwyn a'r gweddill yn gymysg o ran hil. Mae un disgybl yn dysgu Saesneg yn Iaith Ychwanegol. Nid oes yr un disgybl o dan ofal ALl.

Mae 12% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yr ysgol, gan gynnwys pedwar y cant sydd ar gam 'ysgol neu fwy' ac un y cant ar ddatganiad o AAA. Mae'r ffigurau hyn yn arwyddocaol is na'r rhai ar gyfer sir Wrecsam a Chymru gyfan. Sefydlwyd uned anghenion arbennig, o dan reolaeth yr ysgol, fel rhan o'r ysgol, ac mae'n gwasanaethu ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yr ALl.

Yn gyfredol, mae 16 o ddosbarthiadau yn yr ysgol sy'n cynnwys tri dosbarth meithrin ac un dosbarth AAA. Gan gynnwys y pennaeth, a benodwyd i'w swydd yn Ionawr 1999, mae 15 athro llawn amser, pedwar athro rhan amser, tri chymorthydd llawn amser a 16 cymorthydd rhan amser yn gwasanaethu'r ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bodhyfryd yw £3314 sy'n cymharu gydag uchafswm o £9122 ac isafswm o £2734 ar gyfer ysgolion cynradd yn Wrecsam. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 29ain uchaf o'r 62 ysgol gynradd yn Wrecsam.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae hon yn ysgol dda oherwydd bod:

- safonau ym mwyafrif y medrau yn dda a bod cryfderau yn safonau'r Saesneg a mathemateg;
- yr ethos hapus a gofalgar yn drawiadol;
- y corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth eithriadol o natur ac anghenion yr ysgol;
- gan yr ysgol bartneriaethau strategol cryf.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- ymroddiad yr holl staff i gydweithio er mwyn codi safonau;
- brwdfrydedd a gweithgarwch y pennaeth, y tîm rheoli a'r staff wrth iddynt adeiladu ar gryfderau sy'n bodoli eisoes;
- y cyfeiriad strategol a rhydd y corff llywodraethol i arweiniad yr ysgol.

## Argymhellion

Ar gyfer parhau i wella, mae angen i'r ysgol:

A1. godi safonau yn y Gymraeg a pharhau i gynorthwyo gyda'r ddarpariaeth ar gyfer defnydd allgyrsiol o'r Gymraeg;

A2. godi safonau asesiadau ddiwedd cyfnod allweddol mewn gwyddoniaeth;

A3. leihau'r bwlch rhwng canlyniadau asesiadau bechgyn a merched ar ddiwedd cyfnodau allweddol;

A4. sicrhau bod y disgyblion galluocaf yn cael eu hymestyn yn gyson;

A5. ledaenu'r arferion rhagorol a da yn yr addysgu a'r asesu drwy'r ysgol;

A6. bennu blaenoriaethau a miniogi strategaethau er mwyn sicrhau cysondeb arweinyddiaeth a hunan arfarnu ar draws yr ysgol.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau medrau iaith mwyafrif y plant islaw safonau plant eraill yn yr ALl ar fynediad i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd eu cyfnod yn y dosbarth derbyn.

Mae canlyniadau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) rhwng 2008 a 2010 wedi bod yn gyson ar y cyfan o safbwynt canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel disgwyliedig. Fel arfer, mae canlyniadau asesiadau yn y Gymraeg a mathemateg yn well na rhai Cymru gyfan ac yn debyg i rai ysgolion sydd yn yr un teulu neu ysgolion yn yr ALl. Nid yw canlyniadau gwyddoniaeth cystal â rhai mathemateg a'r Gymraeg, fodd bynnag. Yn ogystal, mae canlyniadau bechgyn yn y Gymraeg yn llawer is na chanlyniadau'r merched.

O gymharu canlyniadau diwedd CA1 gyda chanlyniadau ysgolion tebyg o safbwynt meincnod ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael PYD, mae'r ysgol wedi bod yn gyson ymhlith y 50% uchaf o ran canlyniadau yn y Gymraeg a hefyd yng nghanran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd (DPC). Mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn llai cyson. Yn 2008 a 2010 roedd canlyniadau mathemateg yn gosod yr ysgol ymhlith 50% uchaf ysgolion yn yr un grŵp PYD ond yn 2009 roedd ymhlith 50% isaf ysgolion tebyg. Yn 2009 a 2010, roedd canlyniadau gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol ymhlith 50% isaf ysgolion tebyg.

Gyda rhai eithriadau, mae canlyniadau asesiadau CA2 dros y tair blynedd diwethaf wedi bod yn well na rhai Cymru gyfan, yn ddigon tebyg i rai'r ALl ond yn is na rhai'r teulu. Roedd canlyniadau 2010 yn well na chanlyniadau 2009 a 2008 gyda chanlyniadau'r bechgyn yn well na rhai'r merched, yn groes i batrwm y blynyddoedd blaenorol. Yn asesiadau 2008, roedd yr ysgol ymhlith 50% isaf ysgolion yn yr un grŵp ysgolion PYD o safbwynt canran y disgyblion yn cyrraedd DPC, sef lefel 4 neu well yn y Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2010, roedd yn parhau i fod ymhlith yr un garfan o ysgolion ar gyfer gwyddoniaeth ond roedd ymhlith 50% uchaf ysgolion tebyg ar gyfer y pedwar dangosydd arall.

Mae gwahaniaeth sylweddol wedi bod rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched mewn asesiadau ddiwedd cyfnod allweddol. Er hynny, nid yw'r bwlch hwn i'w weld yn amlwg wrth arsylwi dosbarthiadau nac wrth graffu ar waith disgyblion. Dros y blynyddoedd, mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn ar diwedd y ddau gyfnod allweddol, yn arbennig mewn medrau ieithyddol. Eithriad oedd i'r bechgyn wneud yn arwyddocaol well na'r merched ar ddiwedd CA2 yn 2010.

Rhwng 2007 a 2009, ychydig o ddisgyblion CA1 a CA2 oedd yn llwyddo i gyrraedd lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer y cyfnod allweddol. Roedd canran y disgyblion hyn fel arfer, yn is na chanran Cymru, yr ALl a'r teulu. Yn 2010, fodd bynnag, roedd canran y disgyblion a lwyddodd i gyrraedd un lefel yn uwch na'r lefel ddisgwyliedig uwchlaw canran Cymru, yr ALl a chanran cyfartalog ysgolion y teulu yn y ddau gyfnod allweddol.

Nid yw'r disgyblion galluocaf, fodd bynnag, bob amser yn cyflawni eu llawn potensial yn y dosbarth.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i gael PYD yn cyflawni yn ddigon tebyg i'w cymheiriaid. Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o gysyniadau pynciol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Dysgant sut i fod yn ddysgwyr annibynnol ac mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg.

Mae medrau cyfathrebu llafar, darllen ac ysgrifennu Saesneg bron bob un o ddisgyblion CA2 yn dda. (Nid addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 1). Mae medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm bron bob un o'r disgyblion drwy'r ysgol hefyd yn dda.

Mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2 yn ddigonol. Mae safonau'r gweddill yn dda. Mae dealltwriaeth y disgyblion wrth iddynt ddarllen a gwrando yn dda, darllenant ar goedd yn synhwyrol. Maent yn barod i drafod eu gwaith ar lafar ond llesteirir ar y safonau hynny ac ar rugldER eu gwaith ysgrifenedig gan ddiffyg cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn all-gyrsiol.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach ac yn ddiogel. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn y dosbarth ac ar y buarth yn dda. Mae'r disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn dangos brwdfrydedd yn y gwersi. Mae bron bob un yn cyfrannu yn dda i gwestiynu ac i dasgau. Mae pob un o'r disgyblion yn ymdrechu yn dda iawn i gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae annibyniaeth y disgyblion yn y gwersi yn datblygu ond yn anghyson. Mae'r disgyblion yn dangos gofal a goddefgarwch tuag at eu cyfoedion. Maent yn cymdeithasu yn gwrtais ac yn agored gydag oedolion. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Eco Gyngor yn cymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar lawer agwedd o fywyd yr ysgol. Nid ydynt eto yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynnwys eu dysgu na sut y maent yn dysgu. Serch hynny, maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn mwynhau'r gwaith. Naw deg tri y cant oedd y gyfradd presenoldeb ar gyfer y llynedd, sy'n ddigonol. Mae'r ganran presenoldeb hyd at y Nadolig 2010 wedi cynyddu i 94%.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Bron yn ddieithriad, mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn darparu ystod dda o brofiadau diddorol a pherthnasol sy'n ennyn chwilfrydedd ac ymroddiad y disgyblion. Maent yn darparu sylfaen dda o wybodaeth, cysyniadau a sgiliau sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau ac i ddod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned. Cânt eu paratoi yn dda ar gyfer cyfnod nesaf eu haddysg.

Caiff bron bob gwers ei chynllunio'n ofalus gan ddefnyddio ystod dda o weithgareddau ac adnoddau. Mae cynlluniau cwricwlaidd yr ysgol gyfan, ynghyd â chynlluniau athrawon unigol, yn sicrhau bod y disgyblion yn dysgu ystod dda o sgiliau iaith, rhifedd a TGCh, ynghyd â sgiliau hanfodol eraill, megis sgiliau meddwl, gwella eu dysgu eu hunain a chydweithio. Anogir y disgyblion i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008. Mae cryfder arbennig i ymateb yr ysgol i ddisgwyliadau'r Cyfnod Sylfaen yn
B1 a B2.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY o bob math yn effeithiol ac yn hybu safonau da. Caiff y disgyblion sy’n cael eu tynnu allan o’r dosbarthiadau am gyfnodau eu hintegreiddio’n dda gyda’u cyd-ddisgyblion.

Gwna’r ysgol ddefnydd da o’r ardal leol a thu hwnt i ddarparu profiadau dysgu sy’n galluogi’r disgyblion i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dda o hanes ac amgylchfyd yr ardal a gofynion y rhaglenni astudio.

Rhoddir sylw arbennig o dda i’r Cwricwlwm Cymreig drwy’r ysgol sy’n galluogi’r disgyblion i werthfawrogi eu diwylliant eu hunain. Mae hefyd yn darparu cyd-destun cadarn ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn llwyddiannus i safon iaith gyntaf mewn ysgol lle mae tua 80% o’r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Mae’r holl athrawon yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o gynaladwyaeth. Mae’r ysgol wedi derbyn y dyfarniad efydd Eco Ysgolion, ac yn paratoi ar gyfer y dyfarniad arian. Mae’r ysgol yn hybu blaengareddau megis ailgylchu, arbed ynni a bwyta’n iach yn fwriadus. Mae cysylltiadau byw gyda Lesotho ynghyd â chysylltiadau rhyngwladol eraill yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae rheolaeth dda’r athrawon a threfniadau dosbarth ac ysgol i gefnogi ymddygiad da yn sicrhau bod rhan fwyaf yr addysgu’n sicrhau cymhelliad ac ymroddiad y disgyblion i’w gwaith a’u bod yn gwneud cynnydd da. Cyflwyna’r athrawon a’r oedolion eraill fodel da o iaith. Fel arfer mae disgwyliadau’n uchel ond nid yw’r goreuon bob amser yn cael eu hymestyn. Yn y gwersi gorau, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth arbennig o ofynion y Cyfnod Sylfaen a strategaethau sy’n hybu annibyniaeth disgyblion tra hefyd yn sicrhau strwythur da i’r dysgu a’r addysgu. Yn y gwersi da, mae’r athrawon yn gosod nodau clir ac yn rhannu meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion er mwyn datblygu eu sgiliau, safon eu gwaith a’u hannibyniaeth. Gwna’r cymorthyddion gyfraniad amlwg i’r dysgu a’r gynhaliaeth. Yn yr ychydig wersi lle mae’r addysgu’n foddhaol, gwelir nifer o’r nodweddion da uchod ond nid yw’r tasgau mor ddiddorol ac amrywiol ac, ar adegau, mae’r cyflwyniadau dechreuol yn rhy hir.

Caiff y disgyblion adborth da ar eu gwaith; gan amlaf mae ymateb llafar ac ysgrifenedig yr athrawon i waith disgyblion o ddydd i ddydd yn dangos iddynt sut i wella. Yn yr achosion gorau, mae’r disgyblion yn arfarnu eu gwaith eu hunain a’u cymheiriad yn effeithiol a theg ac yn cyfrannu’n dda i’r broses o lunio targedau personol. Mae trefn yr ysgol ar gyfer asesu a thracio disgyblion yn drylwyr ac effeithiol. Sicrheir cysondeb yn yr asesu drwy gymedroli ar lefel ysgol a thrwy safoni manwl yn y pynciau craidd ar lefel clwstwr. Caiff rhieni neu ofalwyr wybodaeth dda a phersonol am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Y mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg iechyd yn dda ac mae addysg lles yn gryfder. Mae'r disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr sy'n datblygu eu sgiliau cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABACH) yn dda.

Mae'r gofal a'r gefnogaeth a gaiff y disgyblion yn yr ysgol yn rhagorol. Cyflwynir y gefnogaeth drwy gynllun lleol, sy'n cynnig cynhaliaeth i hybu lles disgyblion yn ogystal â chan gymhorthydd sydd wedi ei hyfforddi i ddelio â phroblemau emosiynol y disgyblion a'u dysgu i reoli eu teimladau.

Mae gwybodaeth gywir a chyson yn cael ei rhannu gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol yn dda. Mae pob unigolyn yn cael cefnogaeth bwrpasol gan y staff cyfan ac mae'r ysgol yn rhyngweithio yn effeithiol gydag asiantaethau arbenigol..

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda iawn, ac maent yn gwneud cynnydd da oherwydd y ddarpariaeth a drefnir yn ofalus ar eu cyfer. Mae trefniadau intergreiddio i'r brif ffrwd yn effeithiol. Mae cysylltiad pendant rhwng cynlluniau unigol y disgyblion a'r gwaith a gyflawnant; mae hyn yn ganmoladwy. Mae'r ysgol yn sicrhau ymyrraeth gynnar ac effeithiol ac yn tracio disgyblion yn ofalus.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn dda. Mae gan yr ysgol ddogfennaeth briodol a gweithredol ar gyfer delio â materion Amddiffyn Plant.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae i'r ysgol ethos hynod o gyfeillgar a chefnogol. Mae hon yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl ddisgyblion hawl cyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth yn sensitif ac effeithiol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da sy'n addas i anghenion dysgu'r disgyblion. Gwneir defnydd da o adnoddau amgylcheddol, megis yr ardal allanol, i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae'r adeilad o ansawdd da, yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda. Er hynny, nid yw'r ystafelloedd ar y llawr cyntaf yn hygyrch i'r anabl.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac maent yn llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r Tîm Rheoli, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Maent yn gosod cyfeiriad strategol cryf i fywyd a gwaith yr ysgol, sy'n cael dylanwad da ar safonau a dylanwad rhagorol ar les y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r drefn o gyfarfodydd staff, adran, tîm rheoli a thimau datblygu yn sicrhau cyfleoedd i drafod materion allweddol yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar fesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd o safon da, sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swyddi clir a chyfrifoldebau sy'n cael eu cyflawni'n gydwybodol. Mae'r cydgysylltwyr cwricwlaidd yn cynnig arweiniad clir ynglŷn â'u meysydd cyfrifoldeb mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunan arfarnu.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn hynod o effeithiol. Mae gan yr aelodau ymwybyddiaeth drwyadl o berfformiad cyfredol yr ysgol. Mae aelodau'n ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd sy'n eu galluogi i gynnig cefnogaeth effeithiol wrth gynllunio'n strategol. Maent yn adnabod yr ysgol a'i hanghenion yn arbennig o dda.

Mae blaenoriaethau gwelliant yn rhoi ffocws i gyfeiriad strategol yr ysgol gyda'r golwg ar wella safonau cyrhaeddiad a chyflawniad y disgyblion. Er bod nifer o ddatblygiadau cyffrous yn digwydd yn yr ysgol, mae'r strategaethau yn rhy llac a'r blaenoriaethau yn rhy niferus i sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, sirol a lleol. Gweithredir y Cyfnod Sylfaen, nifer o strategaethau datblygu sgiliau meddwl ynghyd ag asesu ar gyfer dysgu, yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i fwyta'n iach, i gynaliadwyedd drwy Ysgol Eco ac i ddinasyddiaeth fyd eang drwy ei chyswllt ag ysgol yn Lesotho. Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd llais y dysgwr ac yn sicrhau cyfleoedd i hynny ddigwydd ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol o ansawdd da. Ar y cyfan, mae'n adnabod yn glir y mwyafrif o'r ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Mae'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad yn seiliedig ar drefniadau effeithiol a sefydlwyd ar gyfer hunan arfarnu'r ysgol. Yn ddiweddar, mireiniwyd y trefniadau hynny er mwyn datblygu'r defnydd o ddata wrth arfarnu perfformiad carfannau o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cynnwys barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol yn ei threfniadau hunan arfarnu. Mae'r broses hefyd yn cynnwys arsylwi gwersi, holi dysgwyr ac archwilio eu gwaith.

Mae deilliannau'r broses hunan arfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r blaenoriaethau wedi eu clustnodi'n glir, gyda'r camau i'w gweithredu, y deilliannau llwyddiant a'r effaith ar safonau wedi eu disgrifio'n gryno. Nodir y sawl sy'n gyfrifol am bob blaenoriaeth ynghyd â'r amserlen ar gyfer gweithredu. Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i'r argymhellion yn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r athrawon yn gweithio fel rhan o rwydweithiau proffesiynol o fewn y ysgol ac yn ehangach gydag ysgolion eraill. Yn fewnol, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd i drafod a rhannu'r arferion diweddaraf ym maes dysgu ac addysgu megis datblygu *Sgiliau Meddwl*, *Asesu ar gyfer Dysgu, Ysgol Iach ac Eco Ysgol*. Yn ehangach, gweithia'r ysgol yn agos gydag ysgolion y clwstwr ar amryw o gyweithiau, gan ymweld â dosbarthiadau mewn sefydliadau eraill er mwyn rhannu arfer dda.

Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy system rheoli perfformiad sy'n gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella unigolion yng nghyd-destun anghenion yr ysgol.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mae perthynas gref yn bodoli gyda'r rhieni. Mae'r gwaith partneriaethol gyda rhieni mewn darllen, gwaith cartref a chadw'n iach, yn cael dylanwad da ar safonau. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn gyda busnesau a sefydliadau lleol ac mae hyn yn cyfranu'n dda tuag at hyrwyddo cyrhaeddiad a lles disgyblion. Sefydlwyd cysylltiadau clos gyda'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn cael ei chefnogi'n dda gan wasanaethau'r ALl er mwyn codi ymwybyddiaeth yr athrawon o ddulliau addysgu a gwerthuso newydd, megis yn y Cyfnod Sylfaen.

Caiff dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill ei hyrwyddo'n fuddiol iawn trwy gysylltiadau rhyngwladol ag Ewrop a gwledydd eraill, megis Lesotho a chymunedau o fewnfudwyr sydd wedi ymgartrefu yn yr ardal. Mae cysylltiadau niferus gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion yn dda.

Mae partneriaethau a grëwyd gydag ysgolion cynradd eraill yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen ac ar safonau darllen disgyblion gydag ADY. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae cymedroli a safoni ar y cyd gydag ysgolion y clwstwr ar ddiwedd asesiadau CA2 yn weithredol ac yn dod â thrylwyredd i'r broses.

Defnyddiwyd ymweliadau swyddogion lles yn effeithiol ac maent wedi arwain yn ddiweddar at welliant, yn arbennig mewn presenoldeb.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio yn effeithiol i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r staff addysgu a chymorth. Mae ganddynt oll y wybodaeth a'r arbenigedd i ymdrin â'r cwricwlwm. Gwna'r cymorthyddion gyfraniad arbennig i waith yr ysgol. Caiff defnydd o'r adnoddau ei adolygu yn rheolaidd a chynllunnir ar gyfer y dyfodol. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol. Yn ogystal, gwna'r ysgol ddefnydd da o'r gymuned ac o adnoddau lleol, megis rhannu cae peldroed gydag ysgol gyfagos, a theulu estynedig yn dod i mewn i gefnogi grwpiau llythrennedd er mwyn cyfoethogi eu hiaith. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth am arian oherwydd ansawdd safonau yn gyffredinol, ansawdd yr ethos a'r gofal ar gyfer y disgyblion, ansawdd yr addysgu a rheolaeth a'r cyswllt rhagorol gyda phartneriaid.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llanwodd 44 o rieni yr holiadur.  At ei gilydd, mae'r rheini yn mynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol.  Mae pob un yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn mwynhau bod yno ac mae bron bob un ohonynt yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yno.

Mae bron bob un o'r farn bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol.  Nid yw ychydig iawn ohonynt yn sicr os ydy'r ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.  Nid yw nifer fach o'r rhieni'n deall trefn gwyno'r ysgol nac yn sicr os yw gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn a addysgir yn yr ysgol.

Mae'r holl rhieni o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i  bod yn hawdd sgwrsio â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.  Maent oll yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da.  Mae bron bob un o'r farn ei fod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llanwodd 107 o ddisgyblion CA2 yr holiaduron.  Dewiswyd y disgyblion ar hap.  Mae bron bob un ohonynt yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol, bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach, bod digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd.  Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn yr ysgol, a'u bod yn gwneud cynnydd da.  Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda ond mae rhai yn teimlo nad ydy'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.  Mae tua chwarter o'r farn nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Mae mwyafrif, yn fechgyn ac yn ferched, o'r farn nad yw'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth a bod hyn yn amharu ar eu gwaith o bryd i'w gilydd.  Mae mwyafrif o'r farn bod plant bob amser yn ymddwyn yn dda yn ystod amser cinio ac amser chwarae er bod lleiafrif yn anghytuno â'r farn honno.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Richard Parry Hughes | Arolygydd Lleyg |
| Siwan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geraint Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |